Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Enfys Hapus**

**187 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9PN**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

25/01/2022

***Llywodraeth Cymru*** © Hawlfraint y Goron 2022.
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Meithrinfa Ddydd Enfys Hapus

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Enfys Hapus Nursery and Day Care Centre Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 55 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Tachwedd 2021 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn ac ni wnaethom ystyried yr holl feysydd yn fanwl.

Yn gyffredinol, mae'r plant yn profi peth gofal cyson i ddiwallu eu hanghenion yn ddigonol. Maent yn datblygu eu sgiliau chwarae ac yn gwella yn eu hyder i ofyn am gymorth. Mae'r plant yn datblygu cydberthnasau cadarnhaol gyda staff a'u ffrindiau.

Yn gyffredinol, mae arferion ar draws y feithrinfa wedi gwella, ac mae'r polisi alergedd ac adweithiau alergaidd yn cael ei ddilyn. Dangosodd sawl aelod o staff fwy o hyder a dealltwriaeth am ddiogelu. Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar-lein, ac mae cynllun ar waith i gynnal hwn yn y dyfodol.

Mae'r adeilad yn eang ac yn ddiogel. Mae rhai ardaloedd wedi'u haddurno ers yr arolygiad diwethaf. Gwnaethom nodi gwelliant yn nhrefniant yr adnoddau. Mae llwybr dihangfa dân yn ardal yr ardd yn glir o rwystrau.

Mae'r arweinyddiaeth a rheolaeth o'r gwasanaeth wedi gwella. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymwybodol o'r gofyniad i gofnodi ac adrodd am unrhyw faterion diogelu. Mae'r unigolyn cyfrifol yn anfon gwybodaeth bwysig at AGC yn awr, yn ôl yr angen. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod yr holl staff wedi gwneud ac wedi diweddaru hyfforddiant addas. Mae'r unigolyn cyfrifol yn y broses o gwblhau argymhellion yr arolygiad blaenorol; ni wnaethom ystyried y rhain yn fanwl y tro hwn. Mae Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth a ddyroddwyd ym mis Tachwedd 2021 wedi'u bodloni a'u cau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ymrwymedig i welliant parhaus.

## Llesiant

Gan fod hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan blant gyfleoedd i wneud dewisiadau yn ystod eu hamser yn y feithrinfa. Gwelsom enghreifftiau o'r plant yn dewis beth yr oeddynt am ei chwarae ac yn gwahodd eraill i ymuno gyda nhw. Mae'r plant yn profi profiadau chwarae  gwell yn y gwasanaeth o ganlyniad i well trefniadaeth ar y teganau a'r adnoddau. Mae'r plant yn cael cysur addas ac yn edrych am sicrwydd oddi wrth staff. Nid oedd ein harsylwadau â phwyslais yn peri pryder arwyddocaol ynglŷn â'r amser a gymerwyd i weini prydau bwyd, gan olygu fod ymddygiad y plant yn dda. Fodd bynnag, mae angen cysondeb ar draws holl ystafelloedd y feithrinfa, gan fod hyn yn cael ei reoli yn well yn yr ystafell cyn-ysgol.

## Gofal a Datblygiad

Gan fod hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Roedd wybodaeth y staff am bolisïau a gweithdrefnau wedi gwella. Maent yn dilyn gweithdrefnau addas o ran gwirio'r bwyd ar gyfer plant ag alergeddau difrifol. Gwelsom un aelod o staff yn newid ei ffedog a'i menig yn ystod pryd bwyd, cyn gweini bwyd i blentyn ag alergedd hysbys. Fodd bynnag, yn unol â Safonau Gofynnol Cenedlaethol (NMS), mae angen cynnal y weithdrefn hon yn gyson. Mae gwybodaeth am iechyd y plant wedi gwella ac yn cael ei hystyried a'i chofnodi yn fwy trwyadl.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â hwy yn dangos cynnydd mewn hyder yn eu gwybodaeth a dealltwriaeth am ddiogelu. Roeddynt yn gallu rhoi rhai enghreifftiau i ni o arwyddion a symptomau o faterion amddiffyn plant posib a'r broses y byddent yn ei gweithredu. Yn ddiweddar, mae'r staff wedi diweddaru eu hyfforddiant diogelu ar-lein. Maent yn defnyddio templedi addas yn awr i gofnodi pryderon ac anafiadau sy’n bodoli eisoes. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw anafiadau sy’n bodoli eisoes wedi digwydd ers ein harolygiad diwethaf. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn yr arolygiad nesaf.

Roedd y staff yn yr ystafell cyn ysgol yn sefyll allan yn arbennig o garedig a gofalgar yn eu rhyngweithiadau gyda'r plant. Gwelsom aelod o staff yn rhyngweithio gyda'r plant mewn ffordd gynnes a meithringar. Ni welsom chwarae y tu allan yn yr awyr agored yn ystod yr arolygiad ond aeth y plant am dro i stablau marchogaeth cyfagos. Mae'r staff yn gwneud rhestr wirio asesiad risg sylfaenol ar gyfer pob gweithgarwch sydd yn cael ei gynnig, fel nad yw'r plant yn cael eu hamlygu i risgiau diangen. Yn ystod yr arolygiad, roedd y gymhareb staffio yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

## Yr Amgylchedd

Gan fod hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae rhai ardaloedd o amgylchedd y feithrinfa wedi cael eu hail-addurno ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r ystafell ar gyfer plant oed cyn ysgol wedi cael ei hail drefnu ac wedi’i gwella yn sylweddol. Mae'r allanfa dân yn yr ardd yn rhydd o rwystr.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan fod hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae **arweinyddiaeth a rheolaeth** y gwasanaeth yn gwella. Mae'r unigolyn cyfrifol yn dangos gwelliant yn ei goruchwyliaeth o'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys monitro arfer, cymhwysedd a hyfforddiant staff.

Mae'r unigolyn cyfrifol wedi diweddaru datganiad o ddiben y gwasanaeth ers yr arolygiad diwethaf. Mae hi wedi diweddaru rhai polisïau a gweithdrefnau, gan gynnwys y polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Sicrhaodd yr unigolyn cyfrifol nad oedd rhagor o faterion ynglŷn â darpariaeth bwyd ar gyfer plant ag alergeddau. Roedd y sampl gwaith papur a welsom yn cadarnhau hyn a gwelsom welliant mewn arferion yn ystod prydau bwyd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn diweddaru AGC yn gyson am ddigwyddiadau arwyddocaol sydd yn effeithio ar lesiant plant a newid staff trwy eu cyfrif ar-lein.

Mae'r staff wedi gwella eu gwybodaeth am bolisi diogelu diweddaraf y feithrinfa i sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi blaenoriaethu gwelliannau yn y maes hwn. Roedd effaith gadarnhaol hyn yn amlwg yn ein trafodaethau gyda'r staff. Nid oedd y gwaith papur a samplwyd yn ystod yr arolwg hwn yn achosi unrhyw bryder. Dywedodd staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cymryd rhan mewn cwisiau diogelu a hyfforddiant senario, er mwyn gwella eu gwybodaeth a bod diogelu yn eitem barhaol ar agendâu cyfarfodydd tîm a goruchwyliaeth. Mae arweinyddion a staff yn gweithio yn unol â'u polisi diogelu ac yn cysylltu gyda thîm diogelu'r awdurdod lleol yn ôl yr angen.

Mae bron yr holl staff wedi cwblhau cyrsiau hyfforddi mewn ymwybyddiaeth alergedd ac anaffylacsis ar-lein. Mae'r holl staff wedi cael goruchwyliaeth ffurfiol ond nid ydynt i gyd wedi cael arfarniad blynyddol pan gynhaliwyd yr arolygiad hwn. Mae cynllun hirdymor ar waith i sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau yn gyson. Mae rôl yr unigolyn cyfrifol i ymgorffori'r a chynnal cydymffurfedd parhaus yn hollbwysig, mae hyn yn cynnwys parhau i ddatblygu'r gwasanaeth.

Mae'r pum Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth (PAN) a ddyroddwyd yn yr arolygiad diwethaf mewn perthynas ag anghenion iechyd y plant, darpariaeth gwybodaeth, trefniadau ar gyfer amddiffyn plant, cyflogi staff a pherson cofrestredig: gofynion cyffredinol yn awr wedi'u cau.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Sicrhau cysondeb ar draws y feithrinfa yn yr amserau mae'r plant yn aros yn ystod prydau bwyd.

A2 Sicrhau bod y system ar gyfer alergeddau yn cael ei chynnal.

A3. Sicrhau bod yr holl gofnodion wedi'u hymgorffori mewn arfer mewn perthynas ag anafiadau sy'n bodoli eisoes.

A4. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau ei bod yn parhau i gynnal goruchwyliaeth ddigonol o ran rhedeg y lleoliad a pharhau i arddangos addasrwydd.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 31 | Mae'r unigolyn cyfrifol wedi methu hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau arwyddocaol mewn perthynas â llesiant y plant ar y safle, ac am newidiadau staff. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau ei bod yn hollol ymwybodol am yr holl ddigwyddiadau y mae'n rhaid hysbysu AGC yn eu cylch a bod yn rhaid darparu hysbysiadau o fewn 14 diwrnod. | Cyflawnwyd |
| 9 | Mae'r unigolyn cyfrifol wedi methu diogelu a hyrwyddo llesiant/ diogelwch y plant yn effeithiol, ac wedi methu cydymffurfio â nifer o reoliadau. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol weithredu gyda gofal, cymhwysedd a sgil digonol i hyrwyddo llesiant y plant. | Cyflawnwyd |
| 22 | Mae'r unigolyn cyfrifol wedi methu â gweithredu eu polisi diogelu ac amddiffyn plant. Ni ddilynwyd | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | gweithdrefnau diogelu, ni wnaeth yr unigolyn cyfrifol gadw cofnodion ysgrifenedig trwyadl nac atgyfeirio mater o ddiogelu i'r awdurdod perthnasol. Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol weithredu trefniadau ar gyfer amddiffyn plant. Nodwyd meysydd o bryder gan Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â diogelu plant, lle na weithredwyd polisi'r feithrinfa. | |
| 24 | Mae'r unigolyn cyfrifol wedi methu â hyrwyddo ac amddiffyn iechyd plant perthnasol. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod polisi'r feithrinfa ynglŷn ag alergeddau yn cael ei ddeall yn iawn a'i weithredu'n llawn gan staff fel bod anghenion unigol y plant yn cael eu diwallu. | Cyflawnwyd |
| 29 | Mae'r unigolyn cyfrifol wedi methu â sicrhau yn effeithiol bod yr holl staff yn cael goruchwyliaeth briodol fel eu bod yn gallu myfyrio ar eu hymarfer. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio yn y feithrinfa yn gymwys i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. | Cyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 16/03/2022